# Gweddi Hwyrol

(Abendsegen) - Engelbert Humperdinck
(Almaeneg gwreiddiol - Adelheid Wette/
Cyfieithiad Cymraeg - Siân Meinir)

WNO WELSH NATIONAL OPERA CENEDLAETHOL CYMRU

CânSing

## Lefel
Heriol

## Ynglŷn â'r gân hon
Mae'r 'Weddi Hwyrol' yn ddeuawd enwog o'r opera *Hansel a Gretel*. Mae'n cael ei chanu gan y ddau brif gymeriad (Hansel a Gretel) yn ystod Act II. Canwyd yr opera yn wreiddiol yn Almaeneg a berfformiwyd yr opera am y tro cyntaf yn yr Almaen ym 1839. Mae'r geiriau ar gyfer yr opera wedi ei hysgrifennu gan chwaer Humperdinck, sef Adelheid Wette ac yn seiliedig ar y stori dylwyth teg y Brodyr Grimm. Mae'n cael ei chanu pan fydd y plant yn y goedwig. Mae'r Sandman yn eu hannog i gysgu, gan ysgeintio tywod yn eu llygaid. Maent yn canu'r Weddi Hwyrol wrth syrthio i gysgu gan freuddwydio am angylion yn gwylio drostynt.

## Cwmpas lleisiol
11fed



## Ffurf leisiol
Unsain/rhannau annibynnol

## Thema/testun
Opera/Crefydd/Gweddi

## Elfennau cerddorol
Gwead a hyd

## Nodweddion cerddorol
Gweadau lleisiol gwahanol, unsain a harmoni deulais, defnyddio rhythmau dot.

## Ymarferion
- Sefwch gyda'ch cefn yn syth, a'ch traed ychydig ar wahân yn wynebu pum munud i un. Anadlwch allan am bedwar curiad, anadlu i mewn am bedwar curiad ac wrth i chi anadlu allan canwch nodyn cyntaf y gân (B♭) ar 'Ww' am gyfrif o 4 curiad. Canolbwyntiwch ar ansawdd y tôn, ailadroddwch os oes angen.
- Gan ddefnyddio eich bodiau a bysedd tapiwch ar hyd a lled eich talcen mor gyflym ag y gallwch. Symudwch dros ben eich pen ac i lawr tuag at gefn eich gwddf. Gwnewch yr un peth ond yn dechrau wrth eich traed, yn symud i fyny at eich coesau ac yn ôl i fyny tuag at eich gwddf.
- Yna, gofynnwch iddyn nhw adleisio yn ôl brawddeg cyntaf y gân ar ôl i chi ei ganu ar un nodyn (C) gan ddefnyddio'r un rhythm (gweler y rhythm nodweddiadol isod). Yn raddol newidiwch i ddefnyddio traw uwch a sicrhau bod pob dysgwr yn ymateb yn gywir.
- Dangoswch rhythm nodweddiadol y gân:




## Ymarferion CânSing a argymhellir
- Ymarfer corff 6 (Osgo, yn sefyll ac eistedd)
- Ymarfer anadlu 2 (Drych)
- Ymarfer lleisiol 1 (Braf cael bod)
- Ymarfer lleisiol 9 (Tisian)

## Addysgu a dysgu
1. Dechreuwch drwy ddarllen yn araf trwy'r geiriau'r pennill cyntaf (bar 3–10). Gwrandewch ar recordiad o'r alaw a mynd dros unrhyw eiriau sy'n anghyfarwydd i'r dysgwyr neu'n anodd i'w ynganu.
2. Gwrandewch gyda'r dysgwyr ar recordiad o'r bennill cyntaf. Ar ôl gwrando unwaith, gofynnwch i'r dysgwyr wrando eto, ac y tro hwn i ymuno i mewn gan glapio a llafarganu'r rhythm.
3. Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd â'r geiriau, dechreuwch gyda'r alaw o (Rhan 1) yn unsain. Dylai'r dysgwyr ganu neu chwarae'r frawddeg gyntaf amryw o weithiau, yn ddelfrydol ar eu pennau eu hunain neu wrth ddefnyddio'r trac cefndir CânSing a ddarperir.
4. Ceisiwch weithio drwy'r pennill, gwnewch yn siŵr bod pob dysgwr yn dilyn y rhan gywir ac yn canolbwyntio ar gywirdeb o ran rythm a thraw.
5. Perfformiwch y pennill cyntaf yn unsain dylech atgoffa'r dysgwyr i ganu drwy'r holl frawddegau ac i gynnal y nodyn hir ar ddiwedd pob llinell.
6. Pan fydd yr holl ddysgwyr yn hyderus gyda alaw'r pennill cyntaf cyflwynwch eiriau newydd yr ail bennill a'i ganu'n unsain. Os yw'r dysgwyr yn cael trafferth gyda brawddeg benodol, gofynnwch iddynt wrando arnoch chi neu'r trac ac yna ymuno.
7. Efallai y gwelwch fod dysgu'r alaw yn ddigon ar gyfer un sesiwn ac yn penderfynu i fynd i'r afael â'r ail ran harmoni (Rhan 2) yn y sesiwn ganlynol.
8. Pan fydd yr holl ddysgwyr yn hyderus gyda'r alaw yn y ddau bennill, rhannwch nhw yn ddau grŵp cyfartal. Rhowch yr alaw (Rhan 1) i'r grŵp coch a'r harmoni (Rhan 2) i'r grŵp porffor.
9. Cyflwynwch Rhan 2 yn y pennill cyntaf i'r grŵp porffor frawddeg ar y tro. Mae'r rhythm yn bennaf yr un fath â Rhan 1, y nodyn cyntaf (B♭) yn unsain gyda rhan 1. Mae'n her i sicrhau tonyddiaeth gadarn.
10. Ar ôl ymarfer y ddwy ran yn drylwyr, ceisiwch berfformio yn ddeulais gyda'r recordiad.

Copyright © CaST Cymru 2015

# Gweddi Hwyrol

## Camau nesaf

- Mae gan y gân wead gwrthbwyntiol/bolyffonig yn yr ail bennill. Ar ôl ymarfer y ddwy ran yn drylwyr, ceisiwch berfformio yn ddeulais gyda'r recordiad, canwch y penillion gyda mynegiant.
- Ceisiwch amrywio'r perfformiad. Er enghraifft, dechrau gyda llais unawdol yn Pennill 1, deuawd yn Pennill 2, y dosbarth cyfan yn ailadrodd y ddau benill. Ar ôl arbrofi gyda gweadau lleisiol gwahanol, ceisiwch amrywio'r ddynameg mewn gwahanol rannau o'r gân. Er enghraifft, yn dechrau gyda dynameg tawel yn y pennill cyntaf, crescendo drwy'r ail bennill, a diminuendo ar y frawddeg olaf.
- Ceisiwch i berfformio mewn harmoni deulais heb unrhyw gyfeiliant i annog dysgwyr i wrando'n ofalus ar sain yr harmoni. Mae angen i eiriau fod yn glir iawn, gyda chytseiniaid cryf a llafariaid llyfn.

## Perfformio, cyfansoddi a gwerthuso

- Gofynnwch i'r dysgwyr wrando ar recordiad o'r gân a rhoi sylwadau ar ei strwythur, gwead, cyflymder a'r naws ac awyrgylch. Trafodwch sut mae'r gân yn cyfleu emosiynau y stori y tu ôl i'r geiriau.
- Gallai dysgwyr wrando ar ariâu/cytganau offerynnol a lleisiol eraill o'r opera *Hansel a Gretel* a nodi tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng pob darn. Os oes angen, atgoffwch y dysgwyr o'r eirfa gywir a'u hannog i adnabod y prif nodweddion.
- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau llai a gofynnwch i bob grŵp i gyfansoddi ei gweddi lleisiol byr eu hunain. Cyfyngwch yr alaw i raddfa bentatonig (CDFGA), ac annogwch y dysgwyr i greu geiriau a rhythm addas. Rhowch gyfle i'r dysgwyr berfformio i'r grwpiau eraill, a gwerthuso perfformiadau eu gilydd.

## Asesu ar gyfer dysgu a datblygu meddwl

### Cwestiynu

**Adnodd: Ymatebion Grŵp**

- Pa fath o awyrgylch mae'r gân hon yn creu? Sut?
- Beth yw strwythur y gân hon? Esboniwch eich ateb.
- Sawl curiad sydd ym mhob bar? A yw'n newid o gwbl?

### Adborth

**Adnodd: Sut i wella**

Dangoswch i'r dysgwyr sut i wella drwy osod targedau. Gallai targed addas ar gyfer rhai dysgwyr fod i gynnal y nodau traw uchel yn y penillion ac i eraill, gallai fod yn canolbwyntio ar gyflawni ynganiad clir, gallech ddangos eich hun neu drwy chwarae'r recordiad. Ar ôl rhoi amser i wella dylech wirio bod y targedau wedi cael eu cyrraedd.

### Hunanasesuiad/Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Dysgwr i ddysgwyr deialog**

Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd tro i fod yn athro wrth drafod y perfformiad ac i ofyn cwestiynau. Efallai y bydd angen i chi roi rhai awgrymiadau o gwestiynau posibl iddynt, er enghraifft:

- A oedd hon yn gân heriol neu hawdd i'w ddysgu? Pam?
- Beth ydych chi'n ei hoffi/ddim yn ei hoffi am y gân hon?

Copyright © CaST Cymru 2015